# Carcharorion Benywaidd o Gymru

Grŵp Trawsbleidiol Plant sy’n Dioddef gan fod eu Rhieni wedi’u Carcharu

Robert Jones

# Nodau

- Mapio sefyllfa menywod o Gymru sydd wedi'i carcharu
- Trafod yr effeithiau y mae pellter yn ei gael
- Trafodaethau ar garchariad menywod yn y dyfodol

# Cyd-destun

- Dim carchar yng Nghymru ar gyfer menywod
- Mae pob menyw o Gymru’n cael eu cadw mewn carchardai ledled Lloegr
- Mae’r problemau sy’n wynebu menywod o Gymru’n cael eu cydnabod (e.e. Y Pwyllgor Materion Cymreig, 2007)

# Cymru a Lloegr

- Mae nifer y carcharorion benywaidd yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng
- Yng Nghymru a Lloegr, mae nifer y menywod mewn carchardai wedi **gostwng** 8.4% rhwng Mai 2012 a Rhagfyr 2014
- O 4234 (Mai 2012) i 3878 (Rhagfyr 2014)

# Cymru

- Mae’r sefyllfa yng Nghymru’n wahanol iawn
- Mae nifer y carcharorion benywaidd o Gymru wedi cynyddu
- Yng Nghymru, mae nifer y menywod mewn carchar wedi **cynyddu** 6.2% rhwng Mai 2012 a Rhagfyr 2014
- O 242 (Mai 2012) i 257 (Rhagfyr 2014)

# Pellteroedd a Gwasgariad

| | 31-Dec-12 | 31-Mar-13 | 30-Jun-13 | 30-Sep-13 | 31-Dec-13 | 31-Mar-14 | 30-Jun-14 | 30-Sep-14 | 31-Dec-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Askham Grange | | <5 | | <5 | <5 | 7 | 8 | ≤5 | ≤5 |
| Bronzefield | <5 | <5 | <5 | 7 | 6 | 9 | 10 | 14 | 11 |
| Downview | 25 | 29 | 25 | 17 | | | | | |
| Drake Hall | 19 | 15 | 17 | 26 | 39 | 37 | 32 | 27 | 25 |
| East Sutton Park | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | ≤5 | ≤5 | ≤5 |
| Eastwood Park | 105 | 115 | 126 | 139 | 131 | 137 | 125 | 139 | 143 |
| Foston Hall | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | 5 | 6 | 6 | ≤5 |
| Holloway | 21 | 14 | 7 | 8 | 6 | <5 | 9 | ≤5 | ≤5 |
| Low Newton | <5 | <5 | <5 | <5 | 7 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| New Hall | <5 | <5 | <5 | <5 | <5 | 6 | ≤5 | ≤5 | ≤5 |
| Peterborough (Female) | <5 | <5 | <5 | 5 | <5 | <5 | ≤5 | ≤5 | ≤5 |
| Send | 22 | 26 | 26 | 21 | 18 | 23 | 22 | 24 | 23 |
| Styal | 26 | 29 | 26 | 32 | 30 | 22 | 27 | 21 | 30 |
| Total | 235 | 246 | 246 | 268 | 256 | 260 | 254 | 260 | 257 |

- Mae pellteroedd yn broblem fawr i deuluoedd carcharorion
- Mae'n effeithio ar ymweliadau â'r carchar ac ar gysylltiadau teuluol

# Ymweliadau â’r Carchar

- Ymweliadau â’r carchar yw’r dull a fferfir i gadw mewn cysylltiad (Murray, 2003)
- Pwysigrwydd cynnal cysylltiadau teuluol (gan gynnwys plant)
- Pwysig i ganlyniadau adsefydlu carcharorion ar ôl eu rhyddhau (Niven a Stewart, 2005; May et al, 2012)

# Pellteroedd

- Mae pellter wedi bod yn destun “ymchwil prin”

  (Christian, 2005, tud.31)
- Pellteroedd yw’r “prif her” (Hudson, 2007, tud. 112)
- Mae carcharorion sy’n cael eu cadw llai nag awr i ffwrdd o’u cartref naw gwaith yn fwy tebygol o gael ymwelwyr (Hudson, 2007)

# Profiadau ar Draws Cymru

- Mae pellteroedd yn achosi pob math o broblemau
- Siwrneiau hir ac anodd
- Cost
- Effaith ar lefelau ymweld
- Effaith ar gydberthnasau teuluol
- Effaith ar blant?

# Siwrneiau Hir

**Catrin**: Os byddaf yn mynd ar y trên, rhaid i mi gael bws o adref i Gaernarfon, newid yng Nghaernarfon i gyrraedd Bangor, cael trên o Fangor i Gaer, trên o Gaer i Moorfields, newid ym Moorfields i Fazarkerly yna cerdded milltir o’r orsaf i’r carchar... Mae hi’n dipyn o daith.

**Lloyd**: Pan oeddwn i yn Parkhurst roedd yn rhaid i fy nghyn wraig deithio yno, ac roedd yn gorfod gwneud ei threfniadau ei hun. Mi wn ei bod yn dal bws at ble bynnag roedd y fferi'n gadael, ac yna roedd yn dal y fferi ac yn gorfod treulio'r noson ar yr ynys a dod i fy ngweld y diwrnod wedyn cyn cychwyn yn ôl am adref. Felly roedd yn cymryd dau ddiwrnod iddi i ddod i fy ngweld, gan fy mod mor bell. A'r plant hefyd, roedd yn rhaid iddi lusgo tri o blant hefo hi.

# Cost

- **Henry**: Ac i wnaethon ni lenwi holiadur a llenwi pob math o bethau ac mi welwyd y gallai cost y siwrnai fod yn £50 neu fwy, i deithio o ogledd orllewin Cymru i Lerpwl, ac os ydach chi ar fudd-daliadau mae hynny'n amhosibl.

**Mair**: Ar y pryd doeddwn i ddim yn cael llawer o fudd-daliadau. Dwi’n meddwl mai dim ond tua £90 yr wythnos oeddwn i’n gael, ac erbyn i mi dalu am y nwy a’r trydan doedd dim llawer ar ôl. Felly roedd ceisio mynd i’w weld o’n hunllef, ond roedd fy mab yn gaeth yn y carchar a doeddwn i ddim yn gallu meddwl amdano yno ar ei ben ei hun ac felly ro’n i’n benderfynol o fynd i’w weld am fy mod eisiau iddo fo wybod ein bod ni’n ei gefnogi.

# Lefelau Ymweld

**John**: Oedd, mi oedd yn anodd. Roeddwn yn eu cael nhw ddwywaith yr wythnos [pan oedd yn cael ei ddal yng Nghymru] ond mi aeth yn unwaith y mis wedyn. Mi ddechreuais gael ymweliadau unwaith y mis am na allai fy nheulu fforddio dod, gan fod yn nheulu'n dlawd.

**Jamie**: Ches i ddim un ymweliad yn Stockton mewn mwy na phum mis ac eto roeddwn i’n cael ymweliadau rheolaidd am dros bum mlynedd o garchar cyn hynny, chwe blynedd o garchar, cyn i mi fynd i’r carchar hwnnw. Pan es i i’r carchar hwnnw roedd yn hurt o bell a doedd iechyd fy rhieni ddim yn rhy dda ar y pryd ac ni fyddan nhw byth wedi medru teithio mor bell heb hedfan ac mi es i am bum mis heb ymweliad, heb weld fy rhieni o gwbl.

- Profiadau a rannwyd gan David a Lloyd

# Cydberthnasau

**Wendy**: Dwi’n siŵr bod cydberthnasau’n dirywio’n gyflym i’r rhai iau efo Mam a Dad yn ymweld ac yn clywed ‘dwi wedi bod yma’r holl amser a tydi Mam ddim wedi ymweld o gwbl’. Ac er eu bod yn rhyw fath o ddeall, dwi’n siŵr eu bod nhw’n meddwl ‘dwi’n siŵr y basa nhw wedi gallu gwneud rhywfaint i ymdrech’, ac mae hynny wedyn yn effeithio arnyn nhw pan fyddan nhw’n dod allan. Ac er nad ydyn nhw’n edliw i’r rhiant neu bwy bynnag, mae’n amser hir heb weld y person hwnnw.

# Pellteroedd ac Anghymhellion

- Mae llawer o ymchwil wedi’i wneud ar deuluoedd carcharorion a’u profiad o ymweld
- E.e. Trefniadau diogelwch
- Pwyslais ar “anghymhellion” (Brooks-Gordon a Bainham, 2004, tud.266)
- Mae’n amlwg bod pellter yn gallu bod yn “anghymhelliad” mawr

# Carcharorion Benywaidd o Gymru

- Mae pellter yn broblem enfawr
- Sut mae hyn yn effeithio ar gydberthynas carcharorion â phlant?
- Sut brofiad yw ymweliadau â charchar i blant?

# Symud Ymlaen

- Casglu data yn systematig (e.e. Howard League)
- ‘Diffyg consesiwn’
- Cymorth Llywodraeth Cymru i deuluoedd e.e. Bws Carchar Gogledd Cymru
- Dadl ar opsiynau amgenach na charcharu i fenywod yng Nghymru
- Gochel rhag bod yn lletchwith
- Digwyddiad ar 22 Ebrill 2015 yn Nhŷ Hywel

**Carol**: Plant fy mhartner o berthynas flaenorol mewn gwirionedd, wel, mi deithiodd ei ferch hynaf, sy’n 19 oed, gyda’i chariad o Landrindod i Lerpwl ac roeddent wedi anghofio’r papur ymweld a chafodd hi ddim mynd i mewn. Er ei bod hi wedi bod yn teithio am dros dair awr. Felly mi aeth bob cam yno a chafodd hi ddim mynd i mewn. Mae o [y carcharor] wedi ypsetio ar y tu mewn [ac] mae hithau [y ferch] yn ei dagrau ar y tu allan. Maen nhw’n gwybod yn iawn eich bod wedi trefnu’r ymweliad ac rydych chi’n gallu dangos eich manylion adnabod iddyn nhw . Mi welais i bod llawer o bethau fel yna’n mynd ymlaen.

Diolch yn fawr

Robert Jones

E-bost: jonesrd7@cardiff.ac.uk